


CADWRAETH AC ADDASU ADEILADAU FFERM TRADDODIADOL YNG NGWYNEDD

Egwyddorion Arfer Da



Cyflwyniad

Mae adeiladau ffarm yn elfen bwysig yn y tirwedd gwledig. Mae'r ffermdai a'u hadeiladau allanol wedi esblygu dros y canrifoedd i adlewyrchu patrwm yr amaethyddiaeth a arferir yn yr ardal.

Ceir yng Ngwynedd etifeddiaeth gyfoethog o ffermydd ac adeiladau allanol, yn amrywio o ddaliad bychan rhwng deg ac ugain erw i ffermydd 'model' neu stad ac iddynt gannoedd o erwau.


Mae adeiladau ffarm yn arwydd o sut yr oedd pobl y cenedlaethau a fu yn defnyddio'r tir, sut yr oeddynt yn ffarmio a pha gnydau yr oeddynt yn eu tyfu, pa anifeiliaid yr oeddynt yn eu cadw a faint ohonynt a hefyd sut yr oedd y ffarm yn gweithio fel uned gynhyrchiol.

Mae adeiladau ffarm traddodiadol neu hanesyddol, eu gosodiad, eu lleoliad a'r ffurf y cawsant eu codi yn rhan o etifeddiaeth adeiledig Gwynedd ac o'r herwydd **mae nifer fawr ohonynt yn adeiladau rhestredig.**

Deunyddiau a Chodi Adeiladau

Carreg yw'r prif ddeunydd adeiladu yng Ngwynedd a dyma welwn ni'n cael ei defnyddio ar gyfer y rhan fwyaf o adeiladau ffarm. Ceir eithriadau i hyn, sef ffermydd wedi'u 'dylunio' yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac sy'n perthyn i stadau mawr, lle defnyddid brics, o bosib, yn ogystal â cherrig.

Byddai'r daliadau tlotach yn defnyddio cerrig maes neu gerrig o welyau afonydd neu'r traeth i godi'r adeiladau allanol a'r ffermydd mwy yn defnyddio cerrig wedi'u naddu a'u sgwario er mwyn cael edrychiad coethach.



- Gall goleddf serth fod yn arwydd y bu yno un tro do gwellt
- Ffrâm gyplau 'A' syml neu gyplau coler
- Waliau o gerrig maes heb eu naddu, fel arfer oddeutu 600mm o drwch, wedi'u dal wrth ei gilydd gan glai neu bridd wedi'i gymysgu gyda chalch. Byddai'r wyneb wedi'i bwyntio mewn priddgalch.
- Llawr pridd wedi caledu
- Drysau gwledig syml
- Ychydig o agoriadau ffenestri
- Dim gwteri

Yn ddieithriad, llechi oedd y toeau gan bod digon o lechi'n lleol a byddai'r rhain wedi'i cynnal gan gyplau ffrâm 'A' syml, trawslathau a thrawstiau. Cyplau pegiog fyddai mewn enghreifftiau cynharach gyda'r coedyn yn aml iawn heb ei sgwario, dim ond wedi'i hollti a'i ddefnyddio gyda'r rhisgl arno byth. Yn yr un modd, ni fyddai'r trawslathau wedi'u trin ac mewn rhai enghreifftiau, na'r trawstiau ychwaith.

To gwellt oedd gan nifer o adeiladau ffarm yn wreiddiol a chafodd y toeau hyn eu disodli gan lechi yn hwyrach ymlaen yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ddechreuwyd chwarela yng Ngwynedd.

Mathau o Adeiladau Ffarm a'u gosodiad

Ffermydd cymysg neu ddaliaid bychain oedd yng Ngwynedd gan amlaf lle byddid yn ffarmio â'r ac yn magu anifeiliaid. Wrth reswm, roedd hyn yn dibynnu ar faint y daliad a'i leoliad daearyddol.

Gellid defnyddio tir mynyddig yn gyffredinol ar gyfer defaid yn unig ond roedd modd ffarmio'r ddwy ffordd mewn daliadau ar dir isel.


Y tŷ hir oedd y ffarm gynharaf a'r fwyaf adnabyddus, math na roddir sylw iddo yn yr arweiniad hwn.

Roedd yr adeiladau a welwyd amlaf o amgylch tŷ ffarm yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn cynnwys:

- Cytiau moch – ac, o bosib, bwylterdy ar gyfer coginio'r bwyd moch
- beudy – ar gyfer godro a chadw gwartheg ynddo dros y gaeaf
- Cwt lloi – ar gyfer magu lloi
- Stabl ar gyfer y ceffyl – efallai gyda chroglofft
- Sied geirt – efallai gyda man storio uwchben yr oedd modd cael ato gyda grisiau allanol
- Ysgubor – o bosib yr adeilad allanol mwyaf a phwysicaf ar y ffarm

O ran y gosodiad, calon y ffarm oedd y tŷ neu'r bwthyn yr oedd yr adeiladau eraill wedi'u codi o'i amgylch. Wrth i adeiladau gael eu hychwanegu at y ffarm dros amser, newid oedd hanes y gosodiad.

Roedd y patrwm cyffredinol yn tueddu i fod yn grŵp o adeiladau allanol o amgylch y tŷ mewn math o gowt neu mewn sgwâr, gan ffurfio buarth. Mae'n bosib bod rhai adeiladau, megis yr ysgubor ar wahân buarth. Y rheswm dros hyn oedd bod yr ysgubor yn cymryd llawer o le ac roedd ganddi gadlas gyfagos iddi ar gyfer dyrnu.



Y Sefyllfa bresennol .

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd mwy a mwy o fygythiad i adeiladau ffarm traddodiadol yn sgil arallgyfeirio ffarmio a newidiadau cyffredinol mewn amaethyddiaeth.

Cafodd yr adeiladau allanol traddodiadol eu dylunio i berwyl penodol ac roeddynt yn anodd eu haddasu. Mae hyn wedi arwain at ddisodli'r adeiladau allanol gyda siedau newydd, modern, manau dan do ac iardiau stacio.

Gan bod nifer fawr o adeiladau amaethyddol yn rhestredig, mae eu cynnal yn faich i'r perchennog. Mae polisi cynllunio yn gyffredinol yn cyfyngu ar godi adeiladau newydd yn y cefn gwlad felly, yr unig opsiwn posib ar gyfer adeiladau ffarm segur yw eu haddasu i ddefnydd arall.

Mae'n amlwg nad oes modd addasu'r holl adeiladau ffarm yn llwyddiannus i fod yn lle 'del' i fynd i ymlacio iddo yn y wlad; dim ond hyn a hyn o ysguboriau sydd!

Ymhlith defnyddiau posib eraill ar gyfer adeiladau ffarm segur mae:

- Defnydd cymunedol
- Defnydd amaethyddol arall
- Gweithdai crefft
- Siop ffarm
- Unedau busnes
- Diwydiant ysgafn
- Unedau ymarfer proffesiynol
- Defnydd hamdden
- Tŷ bwyta
- Llety i ymwelwyr



Ffarm tir uchel wedi'i gadael ynghyd ag olwyn ddŵr

Egwyddorion addasu.

Mae'r egwyddorion gyffredinol y cyfeirir atynt isod yn berthnasol i addasiadau i bob math o ddefnydd.

Y rheol euraidd yw **'gweithiwch gyda'r adeilad, nid yn ei erbyn'**.

Ystyr hyn yw addasu defnydd newydd arfaethedig yr adeilad yn hytrach na'i newid neu ei ymestyn i gyd-fynd â'r defnydd newydd.

1. **Rhaid i'r newid defnydd fod yn dderbyniol;** o ran yr effaith ar ei gyffiniau a rhaid iddo fod yn sensitif i hawliau perchenogion eiddo cyfagos.

2. **Rhaid i bob dyluniad fod yn sensitif i gymeriad yr adeilad;** ei gyffiniau a'i gysylltiad ag adeiladau eraill.

3. **Tynnu cyn lleied â phosib oddi wrth yr adeilad;** onid yw'n angenrheidiol ac nad yw cymeriad yr adeilad yn cael ei niweidio mewn unrhyw ffordd.

4. **Cadw'r cymeriad amaethyddol;** rhaid iddi fod yn bosib gweld beth oedd defnydd gwreiddiol yr adeilad. Holl bwrpas addasu'r adeilad yw cadw ei strwythur fel symbol o'r hyn yr oedd ar un adeg – rhan o etifeddiaeth amaethyddol Gwynedd.

5. **Golau ac agoriadau;** ychydig iawn o agoriadau ar gyfer golau oedd gan adeiladau ffarm traddodiadol, fel arfer nid oedd raid wrth olau da ac eithrio mewn beudái. Wrth eu troi i ddefnydd domestig daw'n her i gael digon o olau dydd heb ddinistrio cymeriad yr adeilad. Yn gyffredinol, dylid osgoi agoriadau ffenestri newydd os yw'n bosib, rhaid gwneud y mwyaf o'r agoriadau sydd eisoes yno. Gallai hyd yn oed ffenestri yn y to fod yn amhriodol mewn adeilad nad oedd gan rai yn wreiddiol. Mae defnyddio drysau gwydr yn lle rhai solet yn cael effaith ar gymeriad yr adeilad.

Mewn ysguboriau, yr her fwyaf yw sut i drin prif agoriad y drws sydd, fel arfer, yn fawr gyda drysau dwbl solet. Fel arfer hwn yw'r unig olau a ddaw i mewn ond wrth roi gwydr ynddo mae'n dinistrio cymeriad yr ysgubor ac ni fyddai'n dderbyniol.

6. **Ymgorffori unrhyw nodweddion sydd eisoes yno yn y gwaith addasu;** dylid cadw drysau codi, tyllau talcen, tyllau tylluanod a holltau awyru a'u defnyddio.

7. **Gwasanaethau;** yn gyffredinol, nid oedd gwasanaethau mewn adeiladau ffarm ac eithrio, o bosib, drydan. Rhaid oedd rhoi ystyriaeth ofalus i ddyfodiad gwres canolog ac ynysu thermal. Er enghraifft, ni ddylid rhoi nenfwd i ysgubor sy'n agored i'r to. Rhaid rhoi sylw gofalus i fanylion ffliwiau fel nad ydynt yn amlwg; nid yw simnai yn dderbyniol ar adeilad amaethyddol.

Gall gwres dan y llawr fod yn fwy derbyniol na sustem gonfensiynol sy'n defnyddio rheiddiaduron.

8. **Y tu mewn i'r adeiladau;** rhaid i adeiladau a ddyluniwyd yn wreiddiol i fod yn agored, megis ysguboriau, barhau i fod yn agored gan mwyaf er mwyn cadw'r syniad o ofod. Gall mathau eraill o adeiladau fod â rhaniadau naturiol a dylid eu defnyddio i'r eithaf. Unwaith eto dylai nodweddion gwreiddiol sy'n ymwneud â'r hen ddefnydd gael eu cadw cymaint â phosib.

9. **Estyniadau;** fel arfer ni ddylid bod angen y rhain onid yw'r strwythur yn fach; yn aml mae'n arwydd o fod yn rhy uchelgeisiol a dim yn gweithio gyda'r adeilad! Rhaid i

estyniadau fod wedi'u dylunio'n briodol a bod â'r manylion i adlewyrchu natur amaethyddol a chymeriad yr adeilad ei hun.

10. **Y tu allan i'r adeiladau;** rhaid i'r deunyddiau a ddefnyddir ar y tu allan adlewyrchu cymeriad yr adeilad ei hun. Rhaid i ddefnyddiau fod yn gadarn ac wedi'u dylunio'n addas i adlewyrchu hyn, er enghraifft rhaid i ddrysau fod y rhai syml sydd wedi'u byrddio gyda cholfachau a chliciadau sylfaenol yn unig. Cerrig noeth oedd waliau allanol adeiladau amaethyddol; dim ond yr adeiladau allanol oedd agosaf i'r tŷ oedd, o bosib, wedi'u gwyngalchu. Yr oll sydd angen ei wneud i waliau allanol adeiladau ffarm yw eu hailbwyntio, gan ddefnyddio priddgalch.

Gadawyd gwaith coed un ai'n noeth neu ei beintio'n lliw cryf. Coch tywyll oedd y lliw mwyaf cyffredin, yn fwy na thebyg.


11. **Tirwedd;** rhaid o hyd gofio bod adeiladau ffarm yn rhan hanfodol o'r cefn gwlad. Mae nodweddion tirwedd a maestrefol, megis dreifiau tarmac, cerrig palmant, gwaith decin coed, patios, nodweddion dŵr a phlanhigion nad ydynt yn rhai cynhenid yn nodweddion estron ac yn dinistrio cymeriad hanfodol adeilad. Dylai waliau a ffensys fod fel y rhai sydd i'w gweld yn yr ardal a dylai gwrychoedd fod yn rhywogaethau cynhenid.

Rhaid bod yn ofalus wrth leoli garejys, siediau a thai gwydr a, hyd yn oed, y lein ddillad. Mae modd difethaf gwaith addasu da trwy osod ar yr adeilad nodweddion domestig amhriodol megis dysglau lloeren, erialau, golau, fentiau echdynnu a larymau lladron.

Agweddau gwahanol tuag at addasu ysgubor nodweddiadol **Alternative approaches to converting a typical barn**


Top: Ysgubor nodweddiadol, heb ei haddasu, gyda'r drysau uchel i'r ardal ddyrnu, ychydig iawn o agoriadau ar gyfer golau a dim simne.

Top: A typical unconverted barn, with tall doors to the threshing area, few openings for light, and no chimney.




Canol: Mae'n bosibl creu tŷ modern safonol a adeilad o'r fath and nid yw nodweddion yr ysgubor wedi cyfrannu a gwbl at y cynnyrch terfynol.

Middle: It is quite possible to create a standard modern house from such a building, but the features of the barn have made no contribution to the final product.



Gwaelod: Mae cynllun amgen ar gyfer addasu'r ysgubor yn cadw'r agoriadau gwreiddiol a linell y to. Cadwyd drysau estyll a cheir cyn lleied o wydr â phosibl. Mae anghenion domestig fel gwaith plymio wedi'u cuddio.

Bottom: An alternative design for conversion preserves the original openings and roofline. Plank doors have been retained and glazing kept to a minimum. Domestic requirements such as plumbing are hidden.



Ffynhonnell: CADW 'Addasu Adeiladu Fferm Hanesyddol yng Nghymru 2004

12

12. **Bywyd Gwylt;** efallai bod amryfal rywogaethau megis tylluanod ac, yn enwedig, ystlumod yn byw yn yr holl adeiladau ffarm segur. **Mae'r rhain i gyd yn rhywogaethau**

sydd wedi'u gwarchod trwy Gyfraith ac mae'n drosedd i darfu ar eu cynefin neu ei ddifethaf. O'r herwydd, mae'n hanfodol cynnal arolygon bywyd gwyllt cyn addasu adeiladau, mae hyn yn ofyn cynllunio hefyd.

Yn olaf, mae'n bwysig cofio na fydd ysgubor nac adeilad ffarm fyth yn dŷ modern ac ofer fyddai ceisio gwneud i'r adeilad weddu â thŷ modern. Bydd gwaith addasu sensitif y rhoddwyd llawer o feddwl i'r manylion ac a godwyd yn dda yn cadw cymeriad yr adeilad gwreiddiol ac anodd iawn fyddai gwahaniaethu rhyngddo a'r adeilad gwreiddiol.



Cyfeiriadau

- 'Addasu Adeiladau Fferm Hanesyddol yng Nghymru'. CADW. 2004.
- 'Adeiladau Amaethyddol Traddodiadol yng Nghymru – Gofal a Chadwraeth'. CADW. 2006
- 'Traditional Farm Buildings'. J E C Peters. Shire Books. 2003.
- 'Hen Adeiladau Fferm'. Eurwyn William. Gwasg Carreg Gwalch. 1992
- 'The Conservation of Traditional Farm Buildings' Canllawiau Cynllunio ac Adeiladu Rhif 3. Cyngor Bwrdeistref Swale.

Polisiau Cynlluniau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Dylid edrych ar bolisiau Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd a Chanllawiau Cynllunio Atodol (copiau ar y wefan yma) yn ogystal a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, cyn cyflwyno cais.

Hefyd, os bwriedir cyflwyno cais rydym yn annog darpar ymgeiswyr i ddefnyddio'r gwasanaeth rhoi cyngor cyn cyflwyno cais sydd yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Cynllunio. Dylid cydymffurfio gyda gofynion y Nodyn Canllaw – Cynnig Cyngor Cyn Cyflwyno cais (ar y wefan) cyn ceisio trefnu apwyntiad i weld Swyddog Cynllunio.